

SGANDAL COVID-19



Rhwng 2019 a mis Mehefin 2023, arweiniodd y pandemig Covid-19 at farwolaeth mwy na 225,000 o bobl yn y DU. Mae'r modd y deliodd llywodraeth y DU â'r pandemig wedi cael ei feirniadu'n eang. Yn wir, mae Ymchwiliad Covid y DU yn honni y gellid bod wedi atal 23,000 o farwolaethau pe bai'r llywodraeth wedi dilyn canllawiau gwyddonol.

Ym mis Awst 2020, heb ymgynghori ag arbenigwyr iechyd, lansiodd llywodraeth y DU gynllun o'r enw "Estyn Llaw drwy Fwyta Allan", er mwyn sbarduno'r economi. Arweiniodd y cynllun hwn at gyflymu lledaeniad y feirws.

Hefyd, fe wnaeth llywodraeth y DU alluogi pobl â chysylltiadau gwleidyddol â'r llywodraeth Geidwadol ar y pryd i elwa ar y pandemig, gan danseilio ymdrechion i amddiffyn pobl rhag Covid-19. Dyfarnwyd contractau i gwmnïau a oedd â chysylltiadau â'r llywodraeth yn hytrach nag ar sail arbenigedd mewn gofal iechyd. Honnir bod hyd at £1 biliwn o arian trethdalwyr wedi cael ei wario ar gyfarpar diogelu personol (PPE) nad oedd modd ei ddefnyddio, tra'r oedd staff y GIG yn wynebu prinder PPE ac yn gorfod gweithio heb amddiffyniad digonol.

Want to know more?

covidfamiliesforjustice.org



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Fe wnaeth Boris Johnson, sef y Prif Weinidog yn ystod y pandemig, wrthod trosglwyddo'i holl negeseuon WhatsApp i Ymchwiliad Covid y DU. Honnodd fod 5,000 o negeseuon "wedi mynd ar goll".

Oherwydd yr oedi cyn rhoi ymchwiliad cyhoeddus swyddogol ar waith, cynhaliwyd Ymchwiliad Covid y Bobl yn 2021 gan y sefydliad rhwydwaith 'Keep Our NHS Public'. Darganfu'r ymchwiliad hwn fod camreoli'r llywodraeth wedi cyfrannu at ddegau ar filoedd o farwolaethau y gellid bod wedi'u hosgoi, yn ogystal â dioddefaint mawr.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

"Mae'r bobl a ddioddefodd brofedigaeth oherwydd Covid wedi gweld â'u llygaid eu hunain pa mor hawdd yw gohirio, gwanhau neu atal y gwirionedd. Mae angen newid y gyfraith er mwyn rhoi diwedd ar hyn; fel arall, bydd y cylch yn ailadrodd. Nid ateb symbolaidd yw Cyfraith Hillsborough. Mae'n ateb ymarferol a fydd yn sicrhau dyletswydd gonestrwydd a mynediad cyfartal at gynrychiolaeth gyfreithiol"

Lobby Akinola, Teuluoedd mewn Profedigaeth dros Gyfiawnder, inquest.org

"Mae gormod o fethiannau wedi digwydd ac mae gormod o arian trethdalwyr wedi cael ei wastraffu gan y Llywodraeth hon – ni allwn ganiatáu i weinidogion osgoi atebolrwydd yn y modd y gwnânt ar hyn o brydt"

Matt Western AS